


**TRAIS YN ERBYN MENYWOD
CAM-DRIN DOMESTIG
A THRAIS RHYWIOL**



BETH MAE TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL YN EI OLYGU?



DIFFINIAD LLYWODRAETH Y DU O DRAIS A CHAM-DRIN DOMESTIG YW:

“ Unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad gormesol, cymhellol, bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd yn neu sydd wedi bod yn gymheiriaid mynwesol neu'n aelodau teulu, ni waeth beth am eu rhyw na'u cyfeiriadedd rhywiol. Gall y gamdriniaeth gwmpasu, ond ni chyfyngir i: gamdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol, emosiynol ”

- Mae Ymddygiad Gormesol yn cyfeirio at unrhyw weithred sydd â'r nod o ddarostwng rhywun a/neu ei wneud yn ddibynnol trwy ei arwahanu o ffynonellau cymorth.
- Mae Ymddygiad Cymhellol yn golygu unrhyw weithred neu batrwm o weithredoedd ymosodol, bygythiadau, gwaradwyddo a dychryn neu mathau eraill o gamdriniaeth a ddefnyddir er mwyn niweidio, cosbi neu frawychu'r dioddefwr/ddioddefwraig.

SOURCE

<https://www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse>




▼ **MAE DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015 YN DIFFINIO'R TERMAU ALLWEDDOL FEL A GANLYN:**

Mae Trais yn erbyn Menywod, y cyfeiria'r Ddeddf ato fel 'trais ar sail rhywedd', yn golygu:

- (a) trais, bygythiadau trais neu aflonyddwch sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM); (c) gorfodi rhywun (boed trwy rym corfforol neu orfodaeth, trwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (boed yn gyfreithiol rwymol neu beidio);
- Mae cam-drin domestig yn golygu camdriniaeth lle mae'r sawl sy'n ei ddioddef yn gysylltiedig, neu wedi bod yn gysylltiedig, â'r sawl sy'n ei g/cham-drin.
- Mae trais rhywiol yn golygu camfanteisio'n rhywiol, aflonyddwch rhywiol neu fygythiadau trais rhywiol eu natur.

▲ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/section/24>





PWY MAE'N EFFEITHIO ARNYNT, A SUT?

▼ YN Y DU:

- Mae 1 o bob 5 plentyn yn byw mewn cartref lle ceir cam-drin domestig.
- Dengys gwaith ymchwil y bydd cam-drin domestig yn effeithio ar 1 o bob 4 menyw ac 1 o bob 6 dyn yn ystod eu bywyd.
- Mae 1 o bob 5 menyw rhwng 16 a 59 oed wedi dioddef rhyw fath o drais rhywiol ers iddi fod yn 16 oed.
- Nid oes ond ychydig o ddata ar gael ynghylch cam-drin pobl hŷn.
- Mae 39% o'r dynion sy'n dioddef cam-drin domestig mwy na theirgwaith yn debycach na menywod (12%) o beidio dweud wrth neb am y cam-drin.
- Yn 2011, amcangyfrifwyd bod 137,000 o ferched a menywod yn y DU yn byw gyda sgil-ffeithiau Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM), a bod 60,000 o ferched dan 15 oed wedi cael eu geni gan famau o wledydd lle'r arferir cyflawni FGM a'u bod hwythau felly mewn perygl o ddioddef FGM.
- Llofruddir 2 fenyw bob wythnos gan eu cymar neu eu cyn-gymar gwrywaidd.
- Mae 30% o gam-drin yn dechrau neu'n cynyddu yn ystod beichiogrwydd.

SOURCE

<http://www.lwa.org.uk/understanding-abuse/statistics.htm> <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf> Robinson et al., The Welsh Government's proposed 'Ending Violence Against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill': Recommendations from the Task and Finish Group 2012.



▼ **YNG NGHYMRU A LLOEGR:**

- Mae bron hanner miliwn o oedolion yn dioddef ymosodiad rhywiol bob blwyddyn, ac mae rhyw 85,000 o fenywod a 12,000 o ddynion yn cael eu treisio yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn – 11 o oedolion yn cael eu treisio bob awr.
- Mae 1.4 miliwn o fenywod a 700,000 o ddynion 16-59 oed yn adrodd eu bod yn dioddef un achos o leiaf o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr .

▼ **YNG NGHYMRU:**

- Amcangyfrifir bod 11% o fenywod a 5% o ddynion yn dioddef ‘cam-drin domestig o ryw fath’, tra bod cyfraddau ‘ymosodiadau rhywiol o unrhyw fath’ dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch ymhlith menywod (3.2%) na dynion (0.7%).
- Amcangyfrifir bod 140 o bobl yn dioddef Anffurfio Organau Cenhedlu bob blwyddyn yng Nghymru.



BAE'R GORLLEWIN - PENYBONT AR OGWR, CASTELL-NEDD PORT TALBOT AC ABERTAWE

Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu	Blwyddyn Ariannol			Chwarter		
	2013 2014	2014 2015	2015 2016	APR-JUN 2014	APR-JUN 2015	APR-JUN 2016
Trais yn erbyn person	5,810	7,499	9,324	1,723	2,170	2,850
Cysylltiedig â cham-drin domestig	2121	2667	3177	590	772	952
Dynladdiad	4	3	6	0	2	2
Cysylltiedig â cham-drin domestig	2	0	2	0	1	0
Trais yn achosi anaf	3,589	3,809	4,163	932	1019	1184
Cysylltiedig â cham-drin domestig	1,271	1,287	1,368	299	339	369
Trais heb anaf	2,217	3,687	5,255	791	1,149	1,660
Cysylltiedig â cham-drin domestig	848	1380	1807	291	432	583



Rhoddwyd y rhestr wirio Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd (DASH) ar waith gan holl wasanaethau heddlu gwledydd Prydain o 2009 ymlaen (Richards, 2009). Defnyddir y rhestr wirio i ‘raddio’ achosion yn unol â lefel y risgiau y credir bod pobl yn eu hwynebu:

▼ **SAFONOL**

Ile nad yw'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod tebygolrwydd y cyflawnir niwed difrifol.

▼ **CANOLIG**

Ile mae dangosyddion adnabyddadwy yn awgrymu risg o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i beri niwed difrifol ond mae'n annhebyg o wneud hyn onid oes newid mewn amgylchiadau: methiant i gymryd moddion er enghraifft, neu golli llety, dirywiad cydberthynas, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol.


▼ **UCHEL**

Mae dangosyddion adnabyddadwy o risg o niwed difrifol. Mae potensial i hyn ddigwydd unrhywbryd, a byddai'r effeithiau'n ddifrifol. Risg o niwed difrifol (Y Swyddfa Gartref 2002 ac OASys 2006): 'Risg sy'n berygl bywyd a/neu'n drawmatig, y gellir disgwyl y bydd adferiad yn ei sgil, boed gorfforol neu seicolegol, yn anodd neu'n amhosibl'.

SOURCE

<http://www.dashriskchecklist.co.uk/wp-content/uploads/2016/09/DASH-2009.pdf>





PWY SY’N DERBYN CYMORTH, A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

— CYNHADLEDD ASESU RISG AML-ASIANTAETH

- Yn ardaloedd y tri awdurdod lleol ym Mae'r Gorllewin, mae asiantaethau statudol allweddol megis yr Awdurdod Lleol, yr heddlu ac iechyd yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector i ffurfio partneriaeth a adnabyddir fel Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC). Mae MARAC yn cwrdd bob yn ail wythnos i drafod dioddefwyr cam-drin domestig uchel eu risg.
- Yn 2015-2016 trafodwyd 1,106 o achosion o gam-drin domestig uchel eu risg yng nghyfarfodydd MARAC yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.

	Penybont ar Ogwr		Castell-nedd Port Talbot		Abertawe	
	2014 2015	2015 2016	2014 2015	2015 2016	2014 2015	2015 2016
Nifer yr achosion a drafodwyd	296	252	306	370	603	484
Nifer yr Achosion Mynych	82 (28%)	46 (18%)	67 (22%)	77 (21%)	139 (23%)	108 (22%)
Nifer y plant yn y cartref	469	373	342	483	694	543



— Y CYNGHORYDD ANNIBYNNOL AR DRAIS DOMESTIG

Mae gwasanaeth y Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yn cynorthwyo'r dioddefwyr trais domestig sydd â'r risg uchaf o anafiadau difrifol neu ddynladdiad. Yn ystod 2015-2016 fe atgyfeiriwyd 1,476 o achosion at wasanaeth yr IDVA.

	Penybont ar Ogwr		Castell-nedd Port Talbot		Abertawe	
	2014 2015	2015 2016	2014 2015	2015 2016	2014 2015	2015 2016
Atgyfeiriadau at yr IDVA	Ddim ar gael	197	265	344	854	935

▲ Nid pob un o'r rhai a atgyfeirir at yr IDVA sy'n dewis ymgysylltu â'r gwasanaeth.

Mae gan bob un o'r tair ardal ym Mae'r Gorllewin ei gwasanaethau arbenigol gwahanol i gynorthwyo'r rhai y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae gan bob un o'r tair ardal Siop Un Stop ar gyfer Cam-drin Domestig, ond maent i gyd mewn lleoliadau o fath gwahanol ac yn cynnig gwasanaethau gwahanol.

— LLETY

- Ar draws Bae'r Gorllewin mae 7 lloches yn darparu llety a chymorth dros dro ar gyfer menywod a phlant. Ar hyn o bryd nid oes lloches ar gael i ddynion ym Mae'r Gorllewin.
- Llety cyfnod penodol – Mae 5 fflat hunangynhwysol a gynorthwyr gan staff o'r lloches. Caiff unigolion aros ynddynt am hyd at 2 flynedd. Ar gyfartaledd roedd pobl yn aros yn y fflatiau hyn am ychydig dros 12 mis yn 2015-2016. Yn ystod 2015-2016, cynorthwy-wyd 6 o fenywod a 2 o blant dibynnol yn y fflatiau hyn.
- Mae tri chlwstwr llety arall yn darparu 14 uned byw. Yn ystod 2015-2016, cynorthwy-wyd 22 o fenywod ac 20 o blant dibynnol yn y clystyrau.
- Tai Diogel – Mae 4 tŷ diogel wedi'u dodrefnu ym Mae'r Gorllewin. Nid yw tai diogel yn wahanol eu golwg i dai cyffredin o'r tu allan. Ond y tu mewn iddynt mae systemau diogelwch arbenigol wedi cael eu gosod, megis teledu cylch cyfyng, larymau panig, Intercom a blychau post sy'n gwrthsefyll tân.



— LLETY

- Mae cymorth yn y gymuned ar gael i unigolion sy'n 17 oed ac yn hŷn (gyda neu heb blant) sy'n dioddef neu wedi dioddef cam-drin domestig. Gall y cymorth ddigwydd yn eu cartrefi eu hunain neu unrhyw le arall sy'n ddiogel. Gellir cyrchu'r gwasanaeth drwy hunan-atgyfeirio, neu atgyfeiriad gan y teulu/ ffrindiau neu asiantaethau statudol/ y trydydd sector. Gellir darparu cymorth am hyd at 12 mis (neu ddwy flynedd mewn achosion eithriadol). Mae'r cymorth yn cwmpasu gwahanol lefelau o ran dwysedd a nifer yr oriau cymorth, yn unol â lefel y risg, yr angen ac amgylchiadau'r unigolyn. Yn 2015-2016, derbyniwyd 111 o atgyfeiriadau, a chynorthwy-wyd 85 o oroeswyr.
- Mae Cymorth fel y bo'r angen yn cymryd dynesiad cyfannol at asesu anghenion yr unigolyn. Mae 21 o unedau cymorth fel y bo'r angen ar gael. Yn ystod 2015-2016 derbyniodd 366 o unigolion a 436 o blant dibynnol gymorth fel y bo'r angen

■ Nid pob gwasanaeth sydd ar gael ym mhob un o dair ardal Bae'r Gorllewin.

- Siop Un Stop – maent yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth gan weithwyr cymorth arbenigol i helpu unrhywun y mae cam-drin domestig yn effeithio, neu wedi effeithio, arnynt. Fe'u defnyddir hefyd gan sefydliadau eraill fel safle ar gyfer darparu eu gwasanaethau, megis: safle tystio o bell i'r Llys Teuluol; cwnsela un-ag-un i ddioddefwyr trais a chamdrin rhywiol, a gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr.
- Y Rhaglen Rhyddid – rhaglen grŵp 7 i 12 wythnos sy'n helpu menywod i ymdopi ag effeithiau cam-drin domestig a gochel rhag cydberthnasau camdriniol yn y dyfodol. Yn 2015-2016, mynychodd 40 o fenywod y rhaglen. Mae'r rhestr aros hir ar gyfer y rhaglen hon yn awgrymu bod y galw amdani'n drech na'r gallu i'w darparu.
- Y Rhaglen Cydberthnasau Positif – mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer dynion, menywod, parau, plant a phobl ifanc â'r nod o dorri cylch dieflig cam-drin domestig. Ers mis Ebrill 2014, mae 9649 o blant a phobl ifanc wedi mynychu sesiwn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau cydberthynas iach trwy gyfrwng y cynllun hwn.



— LLETY

- Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) – canolfan arbenigol yw SARC lle gall rhai sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu gael eu treisio yn ddiweddar dderbyn cymorth a chefnogaeth yn ddioed. Un SARC sydd ym Mae'r Gorllewin, yn Abertawe. Mae gwasanaethau argyfwng treisio a chymorth i ddioddefwyr cam-drin rhywiol ar gael ar wahân ym Mhenybont ar Ogwr.
- Prosiect ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yw Mae'ch Barn Chi'n Cyfrif (YOM) i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses o ddatblygu gwasanaethau lleol i ddioddefwyr cam-drin domestig.
- Rhaglen Cytbwysedd – anelir y rhaglen hon at ddynion gyda'r nod o fynd i'r afael â dulliau ymddwyn gor-reolaethol a chamdriniol yn eu cydberthnasau fel rhieni, er mwyn lleihau'r risg i blant ac oedolion yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae'r rhaglen yn helpu dynion i ddeall natur cam-drin domestig a sut mae'n effeithio ar eu cymar a'u plant.
- BAWSO – dyma'r prif ddarparwr gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl ddu ac o dras ethnig leiafrifol sy'n dioddef gwahanol fathau o gamdriniaeth, megis cam-drin domestig, anffurfio organau cenhedlu benywod, masnachu pobl, puteindra a phriodas dan orfod. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lloches, tai diogel a gwasanaethau allgymorth.



GWASANAETHAU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Nid yw'r gwasanaethau hyn i gyd ar gael ym mhob un o dair ardal Bae'r Gorllewin.

- Cyfarwyddyd Fideo Rhyngweithiol – rhaglen 3 blynedd gyda'r nod o atgyfnerthu'r cwlwm ymlyniad rhwng mamau a babanod sydd wedi dioddef effeithiau cam-drin domestig. Mae'r rhaglen wedi cynorthwyo 8 teulu hyd yn hyn; bwriedir cynorthwyo 37 o deuluoedd eraill dros gyfnod y prosiect.
- Rhaglen Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) a Rhaglen RESPECT – yn mynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiadau, gan gynorthwyo pobl ifanc sy'n dioddef neu wedi dioddef cam-drin domestig. Caiff pobl ifanc 10 – 18 oed a gafwyd yn euog o drosedd dreisgar (gan gynnwys trais rhywiol neu ddomestig) eu cofrestru'n awtomatig yn y rhaglenni hyn i ddysgu am gydberthnasau iach.
- Pecyn Hyfforddi Adferiad – dynesiad therapewtig person-ganolog sy'n seiliedig ar ymddygiad gwybyddol.
- Prosiect SPECTRUM – yn dysgu pobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd am gydberthnasau iach, cam-drin a'i effeithiau a ble i gael cymorth. Rhoddir sesiynau codi ymwybyddiaeth hefyd i athrawon, staff dysgu cynorthwyol, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sydd â diddordeb yn y maes.
- Prosiect RAY – yn dysgu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd am gydberthnasau iach, tecstio rhywgar ayyb. Yn rhedeg grwpiau hefyd ar gyfer pobl ifanc y mae camdriniaeth wedi effeithio arnynt.





FAINT MAE HYN YN EI GOSTIO?

- Ym mis Tachwedd 2009, amcangyfrifodd Sylvia Walby fod cam-drin domestig yn costio £15.7 biliwn y flwyddyn i economi gwledydd Prydain. Amcangyfrifir ei fod yn costio £303.5 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Gellir rhannu hyn yn £202.6m mewn costau gwasanaeth a gwerth £100.9m o fewnbwn economaidd a gollir. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o'r gost ddynol nac emosiynol, y mae gwaith ymchwil yn awgrymu ei bod yn costio £522.9m ychwanegol i Gymru ar gyfartaledd (nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth gostau o unrhyw fath sy'n gysylltiedig â thrais rhywiol na mathau eraill o gam-drin).
- Mae cyllid ar gyfer MARAC a'r IDVAs yn dod o wahanol ffrydiau cyllido, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i amcangyfrif cyfanswm y costau.

SOURCE

Walby, S. (2009) **The Cost of Domestic Violence Update 2009**. Lancaster University, available from: www.lancs.ac.uk/fass/doc.../Cost_of_domestic_violence_update.doc





ADBORTH O YMGYSYLLTU

- Gwella ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), gan gynnwys dioddefwyr gwrywaidd, ac o'r gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo pobl y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt
 - Gwella hyfforddiant fel y bydd yr ymateb cyntaf wrth i bobl chwilio am gymorth yn sensitif i anghenion dioddefwyr camdriniaeth
 - Datblygu opsiynau llety gwell ar gyfer pobl sydd wedi dioddef VAWDASV
 - Ehangu argaeledd gwasanaethau iechyd er mwyn ateb i anghenion o ran iechyd corfforol a seicolegol
 - Datblygu a chefnogi rhwydweithiau cymheiriaid a grwpiau cymorth
 - Darparu cyngor ar faterion ariannol
 - Cadw dioddefwyr yn ddiogel ar ôl i dramgwyddwyr weithio eu ffordd trwy'r system cyfiawnder troseddol a chael eu rhyddhau o'r carchar
 - Cynorthwyo plant sydd wedi byw mewn cartrefi camdriniol
 - Cynorthwyo tramgwyddwyr i newid eu hymddygiad
-





PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAID INNI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

- Fel y mynna'r Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 gan Lywodraeth Cymru, y Strategaeth Genedlaethol ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021, mae'r strategaeth yn seiliedig ar 3 amcan:
 - ▶ atal
 - ▶ amddiffyn
 - ▶ cynorthwyo
- Mae'r strategaeth yn amlinellu chwe nod a fydd, ym marn y Gweinidogion Cymreig, yn cyfrannu at wireddu diben y Ddeddf.
- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd hefyd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi cyd-strategaethau lleol ar gyfer mynd â'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd rhaid i'r strategaethau lleol hyn gymryd i ystyriaeth y chwe nod a osodir yn y Strategaeth Genedlaethol.
- Straen gynyddol ar adnoddau yn sgil rhoi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 mewn grym, ac yn enwedig yn sgil gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a 'Gofyn a Gweithredu'.
 - ▶ Gweithredu 'Gofyn a Gweithredu'– disgwylir cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a adroddir o gam-drin domestig. Ni ddyrannwyd adnoddau ychwanegol i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu'r prif lwybr atgyfeirio at gymorth ar gyfer dioddefwyr sy'n datgelu camdriniaeth. Mewn rhai ardaloedd ym Mae'r Gorllewin nid yw'r Siop Un Stop yn derbyn cyllid penodol; mae'n dibynnu'n llwyr yn hytrach ar gyllid réfeniw oddi wrth y partneriaid, na fydd efallai'n gynaliadwy os bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu'n sylweddol. Mae Siopau Un Stop wedi cytuno i fod yn llwybrau atgyfeirio lleol.
 - ▶ Bydd gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i sicrhau bod gan y staff rheng flaen i gyd hyfforddiant digonol mewn cam-drin domestig yn effeithio ar adnoddau ariannol a staffio.




- Ariennir gwasanaethau cam-drin domestig i blant a phobl ifanc, Cydlynwyr MARAC a'r IDVAs o flwyddyn i flwyddyn; mae hyn yn creu ansicrwydd.
- Mae nifer o ddiodefswyr nad ydynt yn cyrchu llety mewn llochesau na gwasanaethau cymorth eraill; mae angen ymchwilio rhagor er mwyn deall y rhesymau dros hyn.
- Gwelwyd cynnydd yn y camdrin rhywiol hanesyddol sy'n cael ei adrodd.
- Rhanbartholi – bu problemau ynghylch ôl troed daearyddol Bae'r Gorllewin gan nad yw dalgylch Bwrdd Iechyd PABM (Bae'r Gorllewin) yn cyfateb ar y tir i Is-Ranbarth yr Heddlu (Abertawe/Castell-nedd Port Talbot). Ar draws Bae'r Gorllewin mae un bwrdd iechyd a dau is-ranbarth heddlu. Mae ystyriaethau dichonol eraill ynghylch rhanbartholi'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:
 - ▶ Mae gan bob un o'r tair ardal ym Mae'r Gorllewin ei gwasanaethau arbenigol gwahanol i gynorthwyo diodefswyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn benodol i'r ardal; byddai eu rhanbartholi'n cymhlethu pethau felly oherwydd y gwahanol feini prawf ar gyfer cyllido, Cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol ayyb.
 - ▶ Mae'r tair ardal yn gweithio mewn modd ychydig yn wahanol o ran meini prawf ar gyfer cyrchu gwasanaethau, egwyddorion, asesu a llwybrau atgyfeirio
- Ond mae sawl ystyriaeth bositif yng nghyswllt rhanbartholi darpariaeth gwasanaethau. Pe câi polisïau, strategaethau a chanllawiau eu llunio i sicrhau dynesiad cyson at ddarparu gwasanaethau, byddai'n haws sicrhau bod diodefswyr yn dal i dderbyn gofal cyson petaent yn symud o'r naill ardal i'r llall.



-
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid ac yn estyn cwmpas diogelu oedolion o 'oedolion agored i niwed' i 'Oedolion sy'n wynebu risg', a ddiffinir fel oedolyn:
 - ▶ sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
 - ▶ y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
 - ▶ nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. (2014:95).
 - Bydd estyn cwmpas diogelu oedolion yn arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y gwasanaeth, ond nid oes adnoddau ychwanegol wedi cael eu clustnodi i ddelio â'r cynnydd hwnnw.
-





WESTERN BAY

POPULATION ASSESSMENT REPORT

www.westernbay.org.uk